# GWNEUD MODEL O'R YSGYFAINT

Mae'r ysgyfaint fel bagiau sy'n llenwi ag aer, yna'n gwagio. Gallwn weld sut mae'r ysgyfaint yn gweithio trwy greu model syml.

Ar gyfer y model hwn, bydd angen:

- Potel blastig caled wag (500-600ml)
- Dwy falŵn
- Siswrn



**Cam 1**
Tynnwch y caead a thorrwch y gwaelod oddi ar y botel blastig.

Y botel hon fydd y gawell asennau.



**Cam 2**
Rhowch un balŵn y tu mewn i ben y botel blastig ac ymestyn gwddf y falŵn dros wddf y botel.

Mae'r falŵn hon yn cynrychioli'r ysgyfaint sydd yn debyg i fag.



**Cam 3**
Torrwch draean uchaf yr ail falŵn i ffwrdd. Gwnewch gwlwm yng ngwddf y falŵn hon.



**Cam 4**
Ymestynnwch ben mawr, agored y falŵn hon dros yr agoriad llydan ar waelod y botel.

Mae'r falŵn hon ar waelod y botel fel y diaffram.



**Cam 5**
Gan ddal y falŵn waelod yn ei lle, tynnwch y pen wedi'i glymu i lawr yn ysgafn, i ffwrdd oddi wrth y botel.

Wrth i chi dynnu'r falŵn hon i lawr, bydd y falŵn arall, sy'n hongian o wddf y botel, yn llenwi ag aer.

Pan fyddwch chi'n rhyddhau'r cwlwm yn ysgafn, bydd y falŵn ar frig y botel yn gwagio o aer.